



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol David Hughes
Ffordd Pentraeth
Porthaethwy
LL59 5SS**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Crynodeb

Mae arweinwyr ac athrawon Ysgol David Hughes yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol yn gyson. Mae hyn wedi arwain at gymdeithas waraidd â naws ofalgar. Mae bron pob athro'n cynnal perthynas waith gadarnhaol iawn gyda'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig dros eu pwnc ac maent yn llwyddo ennyn diddordeb y disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae llawer yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi, mewn gweithgareddau corfforol ac mewn llu o weithgareddau diwylliannol.

Bydd Ysgol David Hughes yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn cynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth ac yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Argymhellion

- A1 Gwella perfformiad erbyn diwedd cyfnod allweddol 4
- A2 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a datrys problemau rhif ar draws y cwricwlwm
- A3 Cryfhau defnydd data ymysg y rheolwyr canol wrth iddynt arfarnu eu perfformiad
- A4 Cynyddu a chysoni disgwyliadau athrawon o ddefnydd yr iaith Gymraeg gan y disgyblion

Prif ganfyddiadau

1: Safonau

Digonol, angen gwella

Yn gyffredinol, gwna llawer o'r disgyblion gynnydd cryf yn eu gwersi. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol mewn lleiafrif o achosion yn gyffredinol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'w hathrawon ac yn ymroi'n frwdfrydig i'r tasgau dysgu. Mewn llawer o'r gwersi, mae'r disgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn adeiladu ar hwn yn fuddiol. Mae llawer yn arddangos dealltwriaeth gadarn o gysyniadau pynciol ac maent yn ei chymhwyso yn effeithiol i ddod i gasgliadau rhesymegol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau darllen hyfedr ac maent yn defnyddio'r rhain i gywain gwybodaeth berthnasol o ystod eang o destunau, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio i faterion sydd yn ymwneud â iechyd yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae llawer yn darllen yn uchel yn glir â mynegiant perthnasol. Fodd bynnag, mae ychydig yn oedi wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd ac yn darllen mewn modd undonog. Mae medrau llafar cryf gan lawer o ddisgyblion. Maent yn defnyddio'r rhain yn gynhyrchiol wrth drafod eu syniadau mewn grwpiau neu barau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae disgyblion yn cynnig ymatebion byr annatblygedig i gwestiynau gan eu hathrawon. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion sydd yn dilyn y Gymraeg fel iaith gyntaf, afael gadarn ar yr iaith ac mae lleiafrif o'r disgyblion hyn yn cyfathrebu'n huawdl ar lafar. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi a gynhaliwyd yn y Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn trafod eu gwaith â'u cyfoedion mewn Saesneg.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i ystod eang o bwrpasau a chynulleidfaoedd yn y rhan fwyaf o'r pynciau. Mae llawer yn cymhwyso'r rheolau gramadegol a sillafu'n briodol. Mae'r disgyblion hyn yn mynegi eu hunain yn glir ac yn strwythuro'u gwaith yn rhesymegol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig creadigol a chrefftus gan ddefnyddio geirfa gyfoethog wrth iddynt gynhyrchu gwaith llenyddol ac anllenyddol. Fodd bynnag, mae gwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion yn cynnwys gwallau sylfaenol. Nid yw ychydig o'r disgyblion yn ysgrifennu â chystrawen briodol.

Pan fydd yn briodol, mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn llunio graffiau gwasgar synhwyrol ac yn deal sut i gynhyrchu graddfeydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid ydynt yn datblygu eu medrau rhesymegu mathemategol yn ddigonol.

Er bod gan y rhan fwyaf o'r disgyblion fedrau TGCh sylfaenol hyfedr, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Mae perfformiad yn y lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg a mathemateg wedi gwella yn y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad

yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn cymharu'n ffafriol â'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hyn.

Mae cyfran uchel o fechgyn a merched yn llwyddo'n gyson i ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth o gymharu â'r hyn mewn ysgolion eraill. Mae perfformiad y bechgyn a'r merched mewn mathemateg hefyd yn cymharu'n dda â'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, mae'r merched yn perfformio'n gyffredinol yn is yn y Gymraeg a Saesneg nag ydynt mewn ysgolion tebyg eraill. Oni bai am 2016, mae'r bechgyn yn perfformio'n is na bechgyn mewn ysgolion tebyg eraill yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mewn Saesneg, maent yn perfformio'n debyg o gymharu â bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn amrywio. Mae cyfran y grŵp hwn sydd yn ennill 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth yn gyson uwch na'r hyn mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad y disgyblion hyn yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn cymharu'n ffafriol â'r hyn mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad y grŵp hwn yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, yn gyffredinol is nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Wedi diwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg amser llawn. Mae tua hanner ohonynt yn aros yn yr ysgol yn y chweched dosbarth.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn gyffredinol yn uwch na'r hyn mewn ysgolion tebyg eraill.

2: Lles ac agweddau at ddysgu	Da
--------------------------------------	-----------

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion. Yn gyffredinol, maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig i'r gweithgareddau dysgu gan arddangos medrau dysgu annibynnol cryf, dycnwch a dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn o fewn eu gwersi, mewn gwasanaethau ac o amgylch yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn gwrtais i'w gilydd ac ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer yn credu bod staff yr ysgol yn ymdrin ag unrhyw achosion o fwlio yn effeithiol.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau bywyd defnyddiol ac yn cyfrannu'n fuddiol i'w cymuned leol. Mae 'Marchnad Bwyd Môr Menai' yn enghraifft nodedig o hyn wrth i ddisgyblion yr ysgol weithio gyda mudiadau a busnesau lleol er mwyn agor siop bysgod dros dro ym Mhorthaethwy.

Mae nifer uchel o'r disgyblion yn datblygu'u medrau creadigol i safon uchel, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd a chyngherddau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o sut i fwyta ac yfed yn iach, er enghraifft yn eu gwersi addysg

personol a chymdeithasol, technoleg bwyd a gwyddoniaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan brwd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol buddiol, er enghraifft yn y clybiau rygbi, pêl-droed a cheufadio yn y Fenai.

3: Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
--------------------------------------	-----------

Mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ysgogi a diddori ystod gyfan y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i hysgolion partner cynradd i sicrhau bod y cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau disgyblion o gyfnod allweddol 2. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd aml rhwng y cynradd a'r uwchradd i hyrwyddo datblygiad yn ôl y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion a choleg lleol i ehangu dewisiadau'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r amrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yn llwyddo i ddiwallu diddordebau a galluoedd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog sydd yn ategu profiadau'r disgyblion. Mae rhaglen allgyrsiol gynhwysfawr yn cynnwys clybiau pynciol, teithiau lleol a thramor, timau chwaraeon a chlybiau megis y rhai Mandarin a 'Meddylgarwch' (Mindfulness).

Llwydda'r ysgol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys cyfleoedd buddiol i ysgrifennu'n estynedig mewn llawer o bynciau. Enghraifft symbylus o hwn yw'r cyfle mewn gwersi addysg grefyddol i ddisgyblion ddatblygu eu llythrennedd ochr yn ochr â datblygu empathi, drwy ddychmygu bywyd mewn diwylliannau a chrefyddau gwahanol.

Rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae angen i'r ysgol ddarparu mwy o gyfleoedd traws-bynciol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau datrys problemau rhif.

Drwy ystod o ymyraethau buddiol, mae'r ysgol yn darparu cynhaliaeth ychwanegol effeithiol i'r disgyblion sydd ag anawsterau darllen a rhif.

Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl yn dilyn cymhwyster yn y Gymraeg sy'n briodol i'w profiadau ieithyddol blaenorol, ac mae'r nifer sy'n dewis astudio'u cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 trwy'r Gymraeg yn cynyddu'n flynyddol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgybiadau'r athrawon o ddefnydd yr iaith wrth i'r disgyblion drafod a chymdeithasu yn ddigon uchel.

Mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn dda.

Mae bron pob athro yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes hyfedr ac mae'r rhan fwyaf yn fodolau iaith effeithiol. Mae bron pob athro'n cynnal perthynas waith

gadarnhaol iawn gyda'r disgyblion. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn frwdfrydig dros eu pwnc ac yn cynllunio'n ofalus i ennyn diddordeb y disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion mewn modd cadarnhaol a sensitif. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r athrawon yn cyflwyno nodau ac amcanion dysgu clir. Mae'r cynllunio'n sicrhau bod y gweithgareddau'n adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Mewn llawer o wersi, mae'r athrawon yn paratoi ystod o dasgau heriol, gan gynnwys rhai sy'n ysgogi creadigrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys tasg i greu ac egluro arfbais bersonol a chyfleoedd i ddatrys problemau ieithyddol trwy drafod gyda chymheiriaid, cyfeirio'n nôl i'w llyfrau, canfod geiriau cytras neu fynd at eiriadur.

Mewn ychydig o wersi, mae'r cynllunio'n rhy fras ac mae diffyg strwythur i'r tasgau. Yn y gwersi hyn, nid yw'r athrawon yn gosod amcanion clir ac addas. Yn ychwanegol, mae cyflymder y wers yn rhy araf ac nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth adeiladol a phwrpasol ar waith disgyblion ac yn esbonio'n glir yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi amrywiol yn effeithiol i ddatblygu ac ymestyn atebion a syniadau disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae'r holi'n arwynebol ac nid yw'r athro'n rhoi digon o amser i'r disgyblion bwylllo dros yr atebion.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd priodol i'r disgyblion asesu gwaith eu cyfoedion a'u hunain. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae'r athrawon yn hyfforddi'r disgyblion sut i ddefnyddio meini prawf llwyddiant i lunio ac asesu eu gwaith eu hunain. Serch hynny, mewn ychydig o bynciau, mae tasgau asesu cymheiriaid ac hunanasesu yn ddi-bwrpas. Maent yn parhau'n rhy hir ac nid oes meini prawf penodol iddynt.

4: Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
---------------------------------------	-----------

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n weithredol wrth hyrwyddo a chefnogi iechyd, lles a chynnydd ei disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ac effeithiol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol ac yn y pynciau unigol. Gwneir defnydd priodol o'r systemau hyn i adnabod tanberfformiad gan ddisgyblion unigol ac i ddarparu cymorth a her briodol ar eu cyfer. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau i olrhain cynnydd disgyblion yn y prif ddangosyddion.

Mae gan yr ysgol systemau cyfathrebu effeithiol â'r rhieni, gan gynnwys nifer o weithgareddau pwrpasol a defnydd buddiol o gyfryngau cymdeithasol. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau interim a llawn cynhwysfawr ar gynnydd eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae canolfannau 'Y Gorad' a'r 'Porth' yn cyfrannu'n effeithiol tuag at les a chynnydd y disgyblion hyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn addas ac yn ateb gofynion statudol. Mae cysylltiadau agos gyda'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a phresenoldeb disgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sydd wrth wraidd y cynlluniau pwrpasol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff y disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ddylanwadu ar gynnwys y rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn ymateb i'w hanghenion. Er enghraifft, cynhaliwyd sesiynau buddiol yn ddiweddar yn ymdrin â rhagfarn hiliol cyn i ffoaduriaid o Syria symud i'r ardal i fyw.

Mae'r ysgol yn trefnu'n addas fod pob disgybl ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 12 yn cwblhau cyfnod o brofiad gwaith yn llwyddiannus ac mae cefnogaeth yrfaol effeithiol ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft mewn eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon lleol a chenedlaethol. Mae ethos Cymraeg yr ysgol yn cryfhau'n raddol wrth i arweinwyr gynyddu'r pwyslais a roddir ar yr iaith fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd a phrofiadau buddiol er mwyn i ddisgyblion ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn a chyfrifol. Mae ei gwaith fel 'Ysgol sy'n Parchu hawliau UNICEF' yn sail i weledigaeth yr ysgol ac mae wedi ei hymgorffori yng nghynlluniau gwella'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau niferus ac yn codi symiau sylweddol o arian i gefnogi trawstoriad eang o elusennau.

Mae gan yr ysgol drefniadau a pholisiau addas er mwyn atal a mynd i'r afael â bwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

5: Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da
--------------------------------------	-----------

Mae'r pennaeth yn arweinydd diffuant a doeth sydd yn ennyn parch a chefnogaeth staff, rhieni a disgyblion yr ysgol. Gyda chefnogaeth fedrus y ddau ddirprwy a gweddill yr uwch dîm arwain, mae'n cyfathrebu ei weledigaeth yn ddi-amwys ar draws cymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o falchder a chydddyheue ymhlith staff yr ysgol. Mae hyn yn amlwg drwy eu hymrwymiad i gyrraedd nodau ac amcanion yr ysgol, er enghraifft meithrin cymdeithas waraidd sydd yn pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol.

Mae llawer o reolwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac maent yn ymwybodol o'r hyn sydd eisiau ei wneud i wella ansawdd eu gwaith. Mae'r ysgol yn ymroi'n fuddiol i ddatblygu medrau arweinyddol staff drwy gynig cyfleoedd iddynt arwain ar feysydd pwysig neu fentrau newydd.

Mae strwythur a threfn gadarn i gyfarfodydd rheoli ar bob lefel. Mae ansawdd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn uchel iawn. Mae'r camau gweithredu yn glir ac mae'r cyfrifoldebau, dyddiadau cwblhau gweithredoedd a threfniadau dilynol yn rhesymegol. Mae miniogrwydd a chysondeb y gweithdrefnau hyn yn caniatáu i arweinwyr ddwyn staff yn atebol yn llwyddiannus.

Mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar addysgu, asesu a phrofiadau dysgu. Mae datblygiadau gwerthfawr diweddar mewn ansawdd gwaith arweinwyr, er enghraifft i fonitro perfformiad grwpiau o ddisgyblion yn fwy agos ac i leihau effaith tloedi ar gyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur effaith y datblygiadau hyn ar safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Yn ddiweddar, mae hunanarfarnu gonest a chynllunio ar gyfer gwelliant effeithiol wedi cael dylanwad cadarnhaol ar berfformiad mewn arholiadau allanol ac ar ansawdd yr addysgu.

Mae gan uwch arweinwyr a llawer o arweinwyr canol adnabyddiaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, yn y blynyddoedd diwethaf, maent wedi blaenoriaethu a chynllunio'n addas ac wedi cryfhau eu gweithdrefnau er mwyn gwella safonau ac ansawdd yr addysgu. Serch hyn, mae ansawdd ac effeithiolrwydd y prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws yr adrannau yn amrywio. Mae llawer o arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau, ac mae lleiafrif yn ymateb yn gynhyrchiol i farn disgyblion. Maent yn dadansoddi data yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn ystyried yr ystod lawn o ddata perfformiad na barn rhieni a disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau gwerthfawr er mwyn datblygu medrau a dealltwriaeth broffesiynol holl staff yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau dysgu proffesiynol ar amrywiaeth o bynciau perthnasol a rhaglen fuddiol o sesiynau gwyll. Ceir 'marchnad' ble mae staff yn rhannu syniadau ynghylch addysgu ac mae staff o'r ysgol yn cefnogi adrannau mewn ysgolion cyfagos. Mae hefyd gyfleoedd cyfoethog i staff ddatblygu eu medrau arweinyddol, er enghraifft trwy gysgodi uwch arweinwyr a thrwy rhaglen benodol o hyfforddiant a mentora.

Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gydag ysgolion lleol er mwyn rhannu arfer dda a chyd-gynllunio. Yn ogystal, mae'r addysgu a threfniadau ar gyfer lles y disgyblion wedi elwa o ymweliadau ag ysgolion ar draws Cymru a Lloegr.

Mae'r drefn rheoli perfformiad yn addas ac mae cysylltiadau clir rhwng y drefn hon a'r cynllun datblygiad proffesiynol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer delio â thanberfformiad.

Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol iawn. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn deall eu rôl wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif. Er enghraifft, maent yn ystyried effeithiolrwydd cost cyrsiau a safonau mewn pynciau yn drwyadl cyn gwneud penderfyniadau cyllidol. Mae llywodraethwyr cyswllt yn cynnig her a chefnogaeth effeithol i adrannau unigol.

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig, gan gynnwys staff cymorth ac ategol, i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ac i gefnogi a chynnal ei disgyblion. Mae cyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n ddoeth er mwyn elwa'n llawn o arbenigeddau a phrofiadau staff. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a'r gwariant yn ofalus iawn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau. Drwy gynllunio ei gwariant yn drylwyr, mae'r ysgol wedi llwyddo i wella'r amgylchedd ddysgu yn sylweddol.

Ynglŷn â'r ysgol

Mae Ysgol David Hughes yn ysgol gyfun ddwyieithog gyda 1,083 o ddisgyblion rhwng 11-18 oed, ac mae 191 ohonynt yn fyfyrwyr 16-18 oed. Mae hwn ychydig yn is nag ar yr adeg yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf. Mae'n gwasanaethu dalgylch de-ddwyrain Môn, sy'n ardal amaethyddol a thwrستاeth yn bennaf gyda pheth diwydiant ysgafn. Mae 10.1% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sef 17.1%.

Mae 20% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgu ychwanegol gydag 2% o ddisgyblion gyda datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae bron pob disgybl a myfyriwr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Mae'r rhan fwyaf wedi derbyn eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae 66% o'r disgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Mae 41% yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth a dirprwy bennaeth, dirprwy bennaeth rhan amser dros dro a phedwar pennaeth cynorthwyol, dau ohonynt yn benodiadau dros dro. Cafodd y pennaeth ei benodi ym Medi 2013.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm

Atodiad 1: Tabl cryno meysydd arolygu

Safonau	Digonol, angen gwella
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

Rhagorol	Perfformiad ac arfer gadarn, gyson
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol, angen gwella	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol, angen gwella ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Adroddiad ar Ysgol David Hughes
Mawrth 2017

Atodiad 2: Data perfformiad

6604028 - Ysgol David Hughes

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 1083
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 10.1
Grŵp PYD 2 (10%<PYD<=15%)

Cyfnod allweddol 3

	Ysgol				Cyfartaledd y teulu (2016)	Cyfartaledd Cymru (2016)
	2013	2014	2015	2016		
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9	179	170	187	190		
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	82.1	86.5	86.1	93.7	92.2	85.9
Chwarter meincnod	3	3	4	2		
Saesneg						
Nifer y disgyblion yng ngharfan	179	170	187	190		
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	86.6	88.8	88.2	95.8	93.3	89.2
Chwarter meincnod	3	3	4	2		
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	50.8	50.0	64.7	67.9	63.1	56.2
Chwarter meincnod	2	3	2	2		
Cymraeg iaith gyntaf						
Nifer y disgyblion yng ngharfan	82	118	120	130		
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	93.9	89.0	92.5	92.3	92.5	92.0
Chwarter meincnod	1	3	3	3		
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	51.2	63.6	65.0	70.8	58.8	57.2
Chwarter meincnod	2	1	1	1		
Mathemateg						
Nifer y disgyblion yng ngharfan	179	170	187	190		
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	89.4	89.4	90.4	95.3	94.2	90.1
Chwarter meincnod	2	3	4	2		
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	62.0	72.4	63.1	70.5	72.0	62.7
Chwarter meincnod	2	1	4	2		
Gwyddoniaeth						
Nifer y disgyblion yng ngharfan	179	170	187	190		
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	93.9	92.4	93.6	98.9	97.7	92.8
Chwarter meincnod	1	3	4	1		
Yn cyflawni lefel 6+ (%)	58.1	58.8	62.0	66.8	71.8	62.9
Chwarter meincnod	2	3	3	3		

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

Adroddiad ar Ysgol David Hughes
Mawrth 2017

6604028 - Ysgol David Hughes

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 1083
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 10.1
Grŵp PYD 2 (10%<PYD<=15%)

Cyfnod allweddol 4

	Ysgol				Cyfartaledd y teulu (2016)	Cyfartaledd Cymru (2016)
	2013	2014	2015	2016		
Nifer y disgyblion 15 oed	203	160	177	169		
Canran y disgyblion 15 oed sydd:						
Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg	59.1	60.0	61.0	66.9	68.6	60.2
Chwarterl meincnod	3	3	4	3		
Wedi cyflawni trothwy lefel 2	89.2	90.0	86.4	88.2	90.1	83.6
Chwarterl meincnod	1	3	3	3		
Wedi cyflawni trothwy lefel 1	98.5	98.8	98.9	100.0	100.0	95.3
Chwarterl meincnod	2	2	2	1		
Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)	53.2	56.9	59.3	60.9	66.4	57.5
Chwarterl meincnod	3	3	3	3		
Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl	375.0	378.7	366.3	368.3	368.6	344.2
Chwarterl meincnod	1	1	2	2		
Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl	369.1	371.5	362.4	365.6	364.7	340.3
Chwarterl meincnod		
Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A	26.6	28.8	23.2	23.1	21.7	15.8
Chwarterl meincnod		
Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg	63.5	72.5	67.8	75.1	73.5	69.3
Chwarterl meincnod	4	3	4	3		
Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg	69.0	63.1	72.3	74.0	74.0	66.9
Chwarterl meincnod	2	3	2	2		
Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth	69.5	81.3	97.2	66.9	86.7	82.3
Chwarterl meincnod	4	3	1	4		
Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf:	152	124	109	116		
O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:						
Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf	63.2	60.5	58.7	75.0	75.4	75.1
Chwarterl meincnod	3	4	4	2		

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrraedd ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrraedd ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

Adroddiad ar Ysgol David Hughes
Mawrth 2017

6604028 - Ysgol David Hughes

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 1083
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 10.1
Grŵp PYD 2 (10%<PYD<=15%)

Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

	Ysgol				Cyfartaledd y teulu (2016)	Cyfartaledd Cymru (2016)
	2013	2014	2015	2016		
Nifer y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	22	15	16	10		
Canran y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:						
Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg	36.4	26.7	25.0	40.0	46.5	35.5
Wedi cyflawni trothwy lefel 2	63.6	66.7	75.0	70.0	77.5	70.9
Wedi cyflawni trothwy lefel 1	95.5	93.3	100.0	100.0	100.0	92.1
Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)	31.8	20.0	25.0	40.0	43.7	32.7
Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl	324.4	329.5	336.3	331.7	339.2	311.1
Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl	316.7	319.5	330.1	328.6	335.0	305.2
Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A	9.1	13.3	6.3	10.0	7.0	4.5
Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg	45.5	46.7	43.8	60.0	59.2	47.1
Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg	36.4	26.7	50.0	50.0	50.7	43.6
Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth	50.0	60.0	100.0	40.0	76.1	71.7
Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf:	12	7	*	6		
O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:						
Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf	58.3	57.1	*	33.3	53.6	50.9

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Adroddiad ar Ysgol David Hughes
Mawrth 2017

6604028 - Ysgol David Hughes

Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y chweched dosbarth

191

Cyfnod allweddol 5

	Ysgol				Cyfartaledd y teulu (2016)	Cyfartaledd Cymru (2016)
	2013	2014	2015	2016		
Nifer y disgyblion 17 oed	85	106	96	78		
Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog fesul disgybl	980.7	921.2	873.0	969.8	923.3	824.9
Nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch:	83	104	93	76		
O'r rheiny a gofnododd swm sydd gyfwerth â 2 gymhwyster Safon Uwch:						
Wedi cyflawni trothwy lefel 3	100.0	100.0	95.7	100.0	99.7	98.0
Wedi cyflawni 3 A*-A mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth	3.6	7.7	5.4	14.5	8.7	6.6
Wedi cyflawni 3 A*-C mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth	85.5	67.3	71.0	80.3	80.1	70.9

Yn cynnwys pob cymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 17 oed, mewn ysgolion a gynhelir, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer disgyblion 17 oed yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-18 yng Nghymru.

Mae trothwy lefel 3 wedi'i seilio ar nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Defnyddiom yr arolygiad hwn i roi datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu ar brawf. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017